



wellcome trust



Improving the health of future generations

TAFLEN WYBODAETH

Fe'ch gwahoddir i gymryd rhan mewn prosiect ymchwil meddygol pwysig a elwir yn "UK Biobank". Pwrpas UK Biobank yw sefydlu adnodd a fydd yn gwneud ystod eang o ymchwil. Ei fwriad yw gwella atal afiechydon, y diagnosis a'r driniaeth, a hybu iechyd yn y gymdeithas.

Cyn ichi benderfynu ymuno â'r prosiect, mae'n bwysig eich bod yn deall beth yw pwrpas UK Biobank, a beth sy'n gysylltiedig ag ef. Darllenwch yr wybodaeth ganlynol yn ofalus os gwelwch yn dda, a thrafodwch hi gydag eraill, os dyna yw eich dymuniad.

Os oes unrhyw beth yn aneglur, neu os hoffech gael mwy o wybodaeth, ffoniwch 0800-0-276-276 yn rhad ac am ddim, er mwyn siarad ag aelod o'r tîm sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Cewch fwy o wybodaeth am UK Biobank ar y wefan www.ukbiobank.ac.uk. Cewch gyfle pellach i ofyn cwestiynau adeg yr ymweliad asesu.

Diolch i chi am eich amser i ystyried cymryd rhan yn UK Biobank.

Manylion cyswllt:

UK Biobank
1-2 Spectrum Way
Adswold
Stockport
Cheshire
SK3 0SA

E-bost: ukbiobank@ukbiobank.ac.uk
Rhadffon: 0800-0-276-276



SCOTTISH EXECUTIVE



Beth yw pwrpas UKBiobank?

Mae UK Biobank yn bwriadu astudio sut mae ffordd o fyw, amgylchedd a genynnau 500,000 o bobl, sydd yn yr ystod oedran 40-69, ledled y Deyrnas Unedig, yn effeithio ar eu hiechyd. Pwrpas y prosiect pwysig hwn yw gwella atal afiechydon, diagnosis a'r driniaeth o ystod eang o ddoluriau (megis cancr, clefyd y galon, clefyd siwgr, dementia, a phroblemau'r cymalau), a hybu iechyd yn y gymdeithas.

Trwy ddadansoddi atebion, mesuriadau a samplau a gesglir oddi wrth y cyfranogwyr, bydd ymchwilyr yn darganfod pam mae rhai pobl yn datblygu afiechydon arbennig tra bod eraill yn rhydd o'r afiechydon hynny. Dylai hyn ein cynorthwyo i atal llawer o glefydau gwahanol sy'n peri anabledd neu sy'n achosi marwolaethau ifanc.

Nid bwriad UK Biobank yw helpu'r cyfranogwyr yn uniongyrchol. Yn hyn o beth mae'n debyg i roi gwaed. Fodd bynnag, dylai roi gwell cyfle i genedlaethau yn y dyfodol i fyw eu bywydau yn rhydd o glefydau sy'n peri anabledd ac yn farwol.

Sut y cefais fy ngwahodd i gymryd rhan yn UK Biobank?

Dewisir y bobl a fydd yn cael eu gwahodd i gymryd rhan o gofnodion y GIG. Yr unig wybodaeth a ddefnyddir, yn hollol gyfrinachol, ar gyfer y diben hwn, fydd eich enw, cyfeiriad, rhyw, dyddiad geni, rhif GIG, ac enw eich meddyg teulu. Prosesir y manylion hyn yn ganolog ar ran y GIG yn unol â'r Ddeddf Gwarchod Data.

Bydd eich dyddiad geni yn ein helpu i wirio eich bod rhwng 40-69 oed. Byddwn hefyd yn dweud wrth eich meddyg teulu eich bod wedi'ch gwahodd i gymryd rhan yn y prosiect.

Nid oes gennym unrhyw wybodaeth bellach amdanoch, ac nid ydym wedi gweld eich cofnodion meddygol. Dim ond os byddwch yn mynychu ymweliad asesu UK Biobank, ac yn rhoi eich caniatâd ysgrifenedig y bydd UK Biobank yn medru gweld eich cofnodion meddygol. (Bydd yr wybodaeth hon yn hollol gyfrinachol.)

Mae'n bwysig fod ystod eang o bobl yn ymuno ag UK Biobank. Dymunwn eich bod yn cymryd rhan pa un a ydych chi'n glaf neu'n iach, os ydych yn anabl neu os oes angen cymorth arnoch i ddarllen cwestiynau yn ystod yr asesiad. Os bydd angen cymorth ychwanegol arnoch i fynychu'r ganolfan asesu, neu i'n hysbysu am unrhyw beth ymlaen llaw, ffoniwch 0800-0-276-276.

Beth mae cymryd rhan yn UK Biobank yn ei olygu?

Byddai cymryd rhan yn UK Biobank yn golygu:

- Eich bod yn mynychu canolfan asesu leol am tua 90 munud er mwyn ateb rhai cwestiynau syml, gwneud rhai mesuriadau safonol a rhoi samplau bychain o waed ac wrin.
- Eich bod yn cytuno i adael i UK Biobank fonitro eich iechyd yn uniongyrchol am nifer o flynyddoedd drwy gofnodion meddygol arferol a chofnodion eraill yn gysylltiedig â'ch iechyd.
- Bod UK Biobank yn cysylltu eto â chi (e.e. er mwyn i chi ateb rhagor o gwestiynau a/neu fynychu ymweliad asesu arall), er y bydd hyn yn hollol ddewisol.
- Eich bod yn cytuno bod UK Biobank yn cadw'ch samplau a'r wybodaeth yn gysylltiedig â'ch iechyd, a'u defnyddio yn anhysbys, gan ymchwilyr am nifer o flynyddoedd.

Beth sy'n digwydd yn YSTOD yr ymweliad asesu?

Dylai'r apwyntiad yn y ganolfan asesu gymryd tua 90 munud. Yn ystod yr ymweliad, byddwch:

- Yn dysgu mwy am UK Biobank ac yn cael cyfle i ofyn cwestiynau cyn ichi benderfynu ymuno â'r prosiect.
- Yn ateb cwestiynau am eich iechyd, eich ffordd o fyw, eich cof, eich gwaith a hanes eich teulu.
- Yn cael mesuriadau pwysedd gwaed, pwls, taldra, pwysau, bloneg y corff, cryfder eich gafael, dwysedd yr esgyrn a gweithrediad yr ysgyfaint. Ni fydd y rhain yn effeithio arnoch.
- Yn rhoi samplau bychain o waed (tua 3 llwy de) ac wrin, i'w cadw am gyfnod hir a'u dadansoddi (gan gynnwys data genidol).
- Yn derbyn gwybodaeth am ganlyniadau allweddol eich mesuriadau (gweler uchod), er nad arolwg o'ch iechyd yw bwriad yr ymweliad. (Ni fydd eich canlyniadau unigol yn cael eu datgelu i'ch meddyg teulu neu unrhyw un arall).

Noder: Os byddwch, am unrhyw reswm, yn methu rhoi'r mesuriadau corfforol uchod, gellwch barhau i gymryd rhan yn y prosiect.

Beth sy'n digwydd AR ÔL yr ymweliad asesu?

Fel arfer, ni fydd eich samplau gwaed ac wrin yn cael eu dadansoddi'n syth ar ôl eu casglu. Yn hytrach, byddant yn cael eu dadansoddi ar gyfer ymchwil feddygol ac ymchwil sy'n gysylltiedig ag iechyd sydd wedi'u cymeradwyo yn ystod y degawdau nesaf. Am nifer o flynyddoedd ar ôl yr ymweliad asesu, byddai UK Biobank yn ymddiddori yn iechyd pawb a gytunodd i gymryd rhan drwy eu cofnodion meddygol a chofnodion sy'n gysylltiedig ag iechyd (e.e. gwybodaeth alwedigaethol neu breswyl).

Rywbryd yn y dyfodol, efallai, y bydd UK Biobank yn cysylltu â'r bobl a gymerodd ran yn y prosiect er mwyn gofyn mwy o gwestiynau iddynt, er y byddai'r cymorth ychwanegol hwnnw'n hollol ddewisol. Yn yr un modd, flynyddoedd yn ddiweddarach, efallai byddwn yn gofyn i'r cyfranogwyr fynychu ymweliad asesu arall. Byddai hwn yn cynnwys cwestiynau, mesuriadau a samplau, er eto y byddai'r fath ymweliad yn ddewisol.

Cedwir eich gwybodaeth bersonol yn hollol gyfrinachol dan reolaeth ofalus gan UK Biobank. Ni fyddai unrhyw wybodaeth a allai ddatgelu pwy ydych ar gael i unrhyw berson y tu allan i UK Biobank.

Beth ddylwn ei wneud os wyf am gymryd rhan?

Os ydych am fynychu eich canolfan asesu leol er mwyn gwychod mwy am UK Biobank a chymryd rhan yn y prosiect, rhaid ichi gadarnhau eich apwyntiad.

Y ffordd hwylusaf o wneud hyn yw drwy ein ffonio (Llun – Sad 8.00a.m. – 7.00 pm) ar 0800-0-276-276. Os nad yw'r apwyntiad ar y llythyr yn gyfleus, gellwch ei newid pan fyddwch yn ffonio. Ar y llaw arall, gellwch ein hysbysu fod yr apwyntiad yn gyfleus drwy gwblhau a dychwelyd y ffurflen ragdaleidig a ddarperir gyda'ch llythyr gwahoddiad neu drwy fynd i'r wefan www.ukbiobank.ac.uk. Yn y rhan fwyaf o ganolfannau asesu mae apwyntiadau ar gael o ddydd Llun tan ddydd Gwener o 8.00am tan 7.00pm ac ar ddydd Sadwrn o 8.00am tan 5.00pm. Rhowch wybod inni os oes gennych anghenion arbennig, (e.e. bod angen mynediad i gadair olwyn) neu gymorth wedi cyrraedd y ganolfan (e.e. os oes nam ar eich golwg neu os ydych yn drwm eich clyw).

Beth ddylwn ei wneud os nad wyf am gymryd rhan?

Os ydych yn bendant nad ydych am gymryd rhan, byddem yn ddiolchgar pe byddech yn nodi hynny ar y ffurflen ateb ragdaledig a'i dychwelyd hi atom ni. Neu fe allwch ein ffonio ar 0800-0-276-276 neu fynd i'r wefan www.ukbiobank.ac.uk Os rhowch wybod inni nad ydych yn medru mynychu'r apwyntiad gallwn ei roi i rywun arall.

Beth allaf ei wneud os wyf yn ansicr ynglŷn â chymryd rhan?

Ceir mwy o wybodaeth ynglŷn ag UK Biobank yng ngweddill y daflen wybodaeth hon. Os nad yw'n ateb eich cwestiynau i gyd, ffoniwch ni ar 0800-0-276-276 (Llun -Sad. 8.00am - 7.00pm) yn rhad ac am ddim a gofynnwch am fwy o wybodaeth. Ar y llaw arall ewch ar y Rhyngrwyd (yn eich cartref, yn y gwaith neu yn y llyfrgell leol). Ceir manylion ar www.ukbiobank.ac.uk

Cewch gyfle ychwanegol i ofyn cwestiynau sy'n dal gennych ynglŷn â chymryd rhan ar ddechrau'r ymweliad asesu. Nid yw mynychu'r sesiwn hwn yn eich ymrwymo i'r prosiect.

Oes raid i mi wneud rhywbeth CYN yr ymweliad asesu?

Y peth pwysicaf yw cadarnhau y byddwch yn y ganolfan asesu ar ddyddiad ac amser sy'n gyfleus gennych. Byddwn wedyn yn anfon cadarnhad ysgrifenedig atoch. Byddwn hefyd yn cynnwys holiadur byr i'w lenwi cyn yr ymweliad er mwyn eich cynorthwyo i gofio i ddod â rhai pethau gyda chi, sef:

- Eich holl feddyginiaethau, y fitaminau neu'r ychwanegion rydych yn eu cymryd yn rheolaidd.
- Yr holl lawdriniaethau a gawsoch yn y gorffennol.
- Afiechydon difrifol sydd yn y teulu.
- Eich pwysau pan gawsoch eich geni, a gawsoch eich bwydo o'r fron a'ch man geni (os yw'n hysbys).

Gallaf fi hawlio costau teithio?

Gellwch hawlio costau teithio rhesymol ar ddiwedd yr ymweliad drwy gwblhau ffurflen gais syml (byddai'n ddefnyddiol petaech yn cadw unrhyw dderbynebau). Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â chostau teithio, ffoniwch ni ar 0800-0-276-276 (Llun - Sad. 8.00am - 7.00 pm).

Sut y gallaf baratoi ar gyfer yr ymweliad asesu?

Pan fyddwch yn mynychu'r apwyntiad asesu os gwelwch yn dda:

- Dewch â'ch holiadur a lenwyd gennych cyn yr ymweliad, a'r cyfarwyddiadau ar gyfer y ganolfan asesu, fel nad ydych yn cael trafferth i ddod o hyd iddo.
- Dewch â'ch sbectol ddarllen, os ydych yn defnyddio un, gyda chi er mwyn darllen sgrin cyfrifiadur yn eglur.
- Gwisgwch ddillad llac, ysgafn. Os yw'n bosibl, peidiwch â gwisgo sanau neu deits er mwyn hwyluso gwneud rhai o'r mesuriadau (e.e. y rheiny lle mae angen i chi fod yn droednoeth).
- Byddwch yn barod i dreulio tua 90 munud yn y ganolfan asesu.

Oes rhaid i mi gymryd rhan yn UK Biobank?

Nac oes. Mae'n hollol ddewisol os ydych am gynorthwyo â'r prosiect hwn. Os penderfynwch gymryd rhan, gofynnir ichi arwyddo ffurflen ganiatâd yn ystod yr ymweliad asesu.

Pam fod angen fy nghaniatâd ysgrifenedig?

Mae eich cyfranogiad yn UK Biobank yn hollol wirfoddol. Wrth arwyddo'r ffurflen ganiatâd, fe fyddwch yn cadarnhau eich parodrwydd i gymryd rhan. Byddwch, yn benodol yn cytuno i:

- Ateb rhai cwestiynau ac i rai mesuriadau gael eu gwneud.
- Rhoi gwaed ac wrin i'w cadw am gyfnod hir a gwneud profion (gan gynnwys cael gwybodaeth eneteg a chadw celloedd gwyn y gwaed er mwyn gwneud rhagor o DNA).
- Caniatáu i UK Biobank weld eich cofnodion meddygol a chofnodion eraill sy'n ymwneud â'ch iechyd, yn awr ac yn y dyfodol.
- I UK Biobank gysylltu â chi yn y dyfodol.

Hyd yn oed os ydych yn cytuno cymryd rhan byddwch yn rhydd i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg (gweler isod). Bydd yr adnodd hwn o'r gwerth mwyaf os ychydig o bobl sy'n tynnu'n ôl. Felly, dywedwch wrth staff y ganolfan asesu os oes gennych bryderon am oblygiadau cymryd rhan.

Oes rhaid i mi gytuno â phopeth?

Nac oes. Os ydych yn anniddig ynglŷn ag ateb rhai cwestiynau, nid oes rhaid ichi eu hateb. Yn yr un modd, os nad ydych yn dymuno i'r staff wneud rhai mesuriadau iechyd neu roi sampl wrin, dywedwch wrthynt.

Fodd bynnag, mae rhaid inni gael eich caniatâd i fynd â sampl gwaed. Cedwir hwn a'i ddefnyddio ar gyfer profion (gan gynnwys rhai genetig) mewn ymchwil gymeradwy. Ni ellwch ddewis a dethol y math o ymchwil a wneir â'ch samplau. Mae rhaid inni hefyd gael eich caniatâd i weld eich cofnodion meddygol a chofnodion eraill sy'n ymwneud â'ch iechyd, yn gyfrinachol am nifer o flynyddoedd (er efallai, y byddwch erbyn hynny wedi mynd o'ch cof neu wedi marw). Felly, os nad ydych yn cytuno â'r agweddau hyn ar UK Biobank, ni ellwch ymuno â'r prosiect.

Oes unrhyw beryglon i mi wrth ymuno â UK Biobank?

Ni ddylai gymryd rhan yn UK Biobank beri unrhyw niwed i chi. Amcan y prosiect yw gweld beth sy'n digwydd i'r cyfranogwyr dros y degawdau nesaf fel bo cenedlaethau'r dyfodol yn elwa. Ni fwriedir newid yn uniongyrchol yr hyn sy'n digwydd i'r bobl sy'n cymryd rhan. Nid archwiliad meddygol yw'r ymweliad asesu cyntaf chwaith. Rhoddir canlyniadau rhai o'r mesuriadau arferol a wneir yn ystod yr ymweliad cyntaf i chi, ond ni roddir gweddill y canlyniadau i chi na'ch meddyg teulu, (hyd yn oed os bydd rhai ohonynt yn annormal).

Y rheswm am hyn yw bod adborth y tu allan i'r sefyllfa glinigol, arferol o werth amheus. Yn wir, gallai fod yn niweidiol, (e.e. gallai beri braw yn ddiangen a chael effaith andwyol ar bolisi yswiriant), yn enwedig os rhoddir yr wybodaeth heb ymgynghori neu gymorth ymlaen llaw). Am fanylion pellach ar y mater hwn ffoniwch 0800-0-276-276 neu ewch i'n gwefan www.ukbiobank.ac.uk

Efallai y bydd rhai o'r cwestiynau a ofynnir i chi, neu rai o'r mesuriadau a wneir yn ystod yr ymweliad asesu yn peri ichi deimlo'n anniddig. Gellwch, yn gyffredinol, anwybyddu'r cwestiynau a'r mesuriadau hynny. Mae'n bosibl y bydd y broses o gymryd gwaed yn peri ichi deimlo'n anniddig. Mae'r staff wedi'u hyfforddi'n benodol i beri cyn lleied o anghyfleustra â phosibl.

Mae cyfranogi yn y prosiect yn golygu'r perygl lleiaf posibl wrth ddefnyddio gwybodaeth bersonol. Cymerir gofal mawr i sicrhau y bydd yr holl ddata yn gyfrinachol (gweler isod). Ystyriwn fod y posibilrwydd y bydd cyfrinachedd yn cael ei dorri yn isel iawn.

Gwneir ystod eang o brofion ar eich samplau gwaed ac wrin dros y blynyddoedd nesaf, er mwyn gwneud ymchwil feddygol ac ymchwil sy'n gysylltiedig ag iechyd sy'n gymeradwy. Ni roddir unrhyw wybodaeth

amdanoch y gellir ei olrhain yn ôl i chi i'r ymchwilyr. Ni fydd unrhyw ganlyniadau o'r profion yn cael eu rhoi i chi, eich meddyg na neb arall. Felly, ni ddylai gymryd rhan yn y prosiect gael unrhyw effaith andwyol arnoch chi (gan gynnwys statws eich cyflogaeth neu hawl i gael yswiriant).

Sut y bydd yr wybodaeth amdanaf yn cael ei chadw'n gyfrinachol?

Mae UK Biobank yn defnyddio nifer o weithdrefnau trwyadl er mwyn diogelu cyfrinachedd cyfranogwyr. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cadw gwybodaeth a allai ddweud pwy yw unigolion (enwau a chyfeiriadau) yng nghronfa ddata UK Biobank ar wahân i wybodaeth arall am y cyfranogwyr.
- Diogelu cyfrifiaduron sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol rhag mynediad heb ganiatâd gan hacwyr.
- Cyfyngir mynediad at wybodaeth bersonol y tu mewn i UK Biobank. Mae'r staff i gyd yn arwyddo cytundebau cyfrinachedd fel rhan o'u cytundebau cyflogaeth.
- Ni fydd data neu samplau a roddir i ymchwilyr yn cynnwys manylion personol a allai ddatgelu pwy yw unigolion.

Dylai hyn atal gwybodaeth a allai arwain at adnabod unigolion rhag cael ei ddefnyddio, yn fwriadol neu'n anfwriadol, at ddibenion nad yw'n gysylltiedig â'r prosiect.

Pwy all ddefnyddio fy ngwybodaeth a'm samplau?

Bydd gwybodaeth a samplau gan gyfranogwyr UK Biobank ar gael yn unig ar gyfer ymchwilyr sydd wedi'u cymeradwyo yn wyddonol ac yn foesol i wneud hynny. Gall y rhain gynnwys ymchwilyr mewn gwledydd tramor ac mewn cwmnïau masnachol sy'n chwilio am driniaethau newydd.

Rhoddir canlyniadau profion a wneir ar gyfranogwyr neu'u samplau yng nghronfeydd data UK Biobank fel y bônt ar gael ar gyfer ymchwilyr sydd wedi'u cymeradwyo. Bydd yn rhaid cyhoeddi ffrwyth yr ymchwil, yn seiliedig ar yr adnodd, fel y bo pobl yn elwa ohono.

Ni roddir gwybodaeth am unigolion, samplau neu ganlyniadau profion i gwmnïau yswiriant a chyflogwyr. Ni fyddwn chwaith yn caniatáu i'r heddlu, y gwasanaethau diogelwch, perthnasau neu gyfreithwyr i gael mynediad iddynt, os na orfodir inni ddatgelu manylion gan orchymyn llys.

Cyhoeddir canlyniadau'r ymchwil a wneir gan adnodd UK Biobank. Bydd ar gael i gyfranogwyr ac unrhyw un arall sydd â diddordeb ar www.ukbiobank.ac.uk

Sut y gallaf dynnu'n ôl os dymunaf?

Ceir y gwerth mwyaf o'r prosiect os ychydig o bobl a fydd yn tynnu'n ôl. Felly, gofynnir i ddarpar gyfranogwyr drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt gydag aelod o'r tîm cyn cytuno cymryd rhan yn y prosiect.

Gellwch dynnu'n ôl ar unrhyw adeg yn ystod yr ymweliad asesu ar ôl i chi arwyddo'r ffurflen ganiatâd, drwy ddweud wrth aelod o'r staff. Gofynnir i chi gadarnhau tynnu'r caniatâd yn ôl drwy lofnodi.

Ar ôl yr ymweliad gellwch dynnu'n ôl drwy ein ffonio ar 0800-0-276-276 (Llun-Sad. 8.00am-7.00pm) neu drwy ysgrifennu i'r swyddfa gydlynu ganolog. Gallwn wedyn drafod eich pryderon â chi a phenderfynu i ba raddau yr ydych am dynnu'n ôl o blith y dewisiadau canlynol:

- “Dim cyswllt pellach”. Golyga hyn na fyddai UK Biobank yn cysylltu eto â chi'n uniongyrchol; ond byddai eich caniatâd ganddo i gadw a defnyddio gwybodaeth a samplau a roddwyd eisoes, a chael a defnyddio gwybodaeth bellach o'ch cofnodion iechyd.
- “Dim mynediad pellach”. Golyga hyn na fyddai UK Biobank yn cysylltu eto â chi'n uniongyrchol neu'n cael gwybodaeth bellach o'ch cofnodion meddygol yn y dyfodol. Ond byddai ganddo eich caniatâd i ddefnyddio'r wybodaeth a'r samplau a roddwyd eisoes.
- “Dim defnydd pellach”. Yn ogystal â pheidio â chysylltu â chi neu gael mwy o wybodaeth amdanoch, golyga hyn na fyddai unrhyw wybodaeth a samplau a gasglwyd yn flaenorol ar gael i ymchwilwyr. Byddai UK Biobank yn dinistrio eich samplau (er na fyddai'n bosibl dod o hyd i bob sampl a ddisbarthwyd). Byddai'r cwmni yn cadw eich gwybodaeth fel cofnod ar gyfer archwiliad archifol yn unig. Cedwir eich llofnod yn dynodi eich caniatâd a'ch dymuniad i dynnu'n ôl fel cofnod o'ch dymuniad. Byddai'r cam hwn yn rhwystro gwybodaeth amdanoch rhag cael ei ddefnyddio ar gyfer ymchwil bellach. Ond ni fyddai'n bosibl dileu'r data ynglyn ag ymchwil a wnaed eisoes.

Os ydych yn penderfynu tynnu eich cais yn ôl, ar ôl trafod y dewisiadau a'ch pryderon, byddwn yn anfon atoch ffurflen er mwyn ichi gadarnhau eich dymuniad yn ysgrifenedig. Gellwch chi gwblhau'r ffurflen hon, neu os ydych yn methu (oherwydd afiechyd), gan rywun sy'n gweithredu ar eich rhan.

Pwy sy'n trefnu ac yn ariannu UK Biobank?

Sefydlwyd UK Biobank gan Yr Adran Iechyd, Y Cyngor Ymchwil Feddygol, Gweithrediaeth yr Alban a'r elusen feddygol The Wellcome Trust. Fe'i cefnogir gan elusennau iechyd eraill megis Sefydliad Prydeinig y Galon a Cancer Research UK yn ogystal â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Cwmni elusennol nad yw'n gwneud elw yw UK Biobank, ac fe'i sefydlwyd i fod yn berchennog cyfreithiol ac i warchod y gronfa ddata a'r casgliad o samplau. Pan fydd y cyfranogwyr yn arwyddo'r ffurflen ganiatâd, maen nhw'n ildio'u hawliau eiddo a hawliau eiddo deallusol dros y samplau a'r data i UK Biobank. Swyddogaeth yr elusen yw gwarchod yr adnodd gwerthfawr hwn fel bo gwyddonwyr yn medru gwneud ystod eang o ymchwil sy'n gysylltiedig ag iechyd yn y dyfodol.

Mae UK Biobank yn cydweithio â gwyddonwyr o ragor nag ugain o brifysgolion ym Mhrydain sydd wedi datblygu'r cynllun. Adolygydd y cynlluniau hyn gan grŵp annibynnol o wyddonwyr rhyngwladol ac fe'u cymeradwywyd gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Aml-Ganolfan GIG y Gogledd-orllewin. At hynny, mae'r Cyngor Moeseg a Llywodraethu, sy'n annibynnol, yn mynd i fonitro'r datblygiad a'r defnydd o'r adnodd hwn. Am fwy o wybodaeth gweler www.egcukbiobank.org.uk.

Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?

Mae'r perygl bod cyfranogwyr yn cael niwed yn sgil cymryd rhan yn isel iawn. Mae gan UK Biobank yswiriant i roi iawndal os bydd cyfranogwyr yn cael niwed oherwydd esgeulustod wrth gymryd rhan.



Pwy yw'r cyswllt os oes gennych bryderon?

Os oes gennych bryderon neu gwynion ynglŷn ag unrhyw beth sy'n ymwneud â UK Biobank, ffoniwch 0800-0-276-276 (Llun- Sad. 8.00am – 7.00 pm) yn rhad ac am ddim a gofynnwch am gael siarad yn uniongyrchol ag un o'r trefnwyr. Neu os ydych am ysgrifennu at y person sy'n gyfrifol am y prosiect, anfonwch llythyr at:

Yr Athro Rory Collins
UK Biobank
1-2 Spectrum Way
Adswod
Stockport
Cheshire
SK3 0SA

E-bost: ukbiobank@ukbiobank.ac.uk

Atebwn eich llythyr yn ddiymdroi, yn ysgrifenedig, neu os rhowch eich rhif ffôn inni, gallwn drafod eich pryderon â chi fel hynny.



Mae UKBiobank Cyf. yn gofrestrdig (rhif 4978912) yn Lloegr
Ac yn elusen gofrestrdig (rhif 1101332)
Fersiwn 4.0

